

Bydd Mererid Hopwood, un o feirdd pennaf Cymru, yn beirniadu gwaith llenyddol Eisteddfod Y Fenni eleni, un o eisteddfodau bach mwyaf bywiog y gororau.

Nid o'r Fenni a'r cyffiniau y daw pob un o gystadleuwyr yr eisteddfod fach; trwy wyrthiau'r we ceir ceisiadau o bob rhan o'r byd, gan gynnwys yn y gorffennol gerddi gan Gymraes sydd wedi bod yn byw yng ngwlad Groeg ers deg mlynedd ar hugain, a straeon byrion o Awstralia.

Cafodd Mererid Hopwood hithau ei magu yng Nghaerdydd, ond mae ganddi gysylltiadau teuluol gyda'r ardal o gwmpas Y Fenni, a'i thadcu a'i mamgu wedi byw ym mhentref cyfagos Gofilon, lle roedd ei thadcu yn weinidog ar gapel Llanwenarth, am nifer o flynyddoedd. Ymwelodd Mererid ei hun â'r ardal hefyd dro'n ôl, i annerch cymdeithas y Cymreigyddion, gyda sgwrs gofiadwy ar y gynghanedd, oedd – am resymau sydd bellach yn angof - yn cynnwys arwain deugain o drigolion canol oed a hŷn yr ardal wrth iddynt neidio i fyny ac i lawr ar eu cadeiriau.

## **Eisteddfod Y Fenni**

### **Cystadleuaeth y Limrig**

#### **Limrig yn cynnwys y llinell 'Wrth Edrych I lawr'**

Cafwyd tua 25 ymgais a phob un yn limrigau cywir – llongyfarchiadau mawr! Wedi dweud hynny, nid oedd pob limrig yn taro deuddeg bob tro. Mae'n hanfodol bwysig bod limrig yn gweithio tuag at y llinell glo – rhaid i'r limrigwr, neu'r limrigwraig gadw ei ergyd orau tan y diwedd yn deg.

Mae *Angharad* yn mynd â ni i'r Cynulliad ac yn tynnu ar aelodau adnabyddus fel Elin Jones, Carwyn Jones a Guto Bebb.

Mae *Tomi* wedyn yn gweld rhyfeddodau o gopa mynyddoedd – a hithau'n adeg arholiadau TGAU a Lefel A, does dim syndod bod Gwawr a Dai wedi bod yn 'adolygu'!

*Aeth gŵr bach o ardal Pencarreg*

*I fyny i fynydd Talgarreg*

*Wrth edrych i lawr*

*Mi welodd hi Gwawr*

*A Dai yn cael gwersi Bioleg.*

Cafodd *Shani* syniad da yn ei limrig i'r gwyliau yn Sbaen – ond trueni bod y gair 'pwys' a 'pwysau' mor debyg i'w gilydd yn y llinell olaf:

*Daeth babi bach wyth pwys o bwysau*

Mae'n gwneud y limrig rywfaint yn herciog.

Cawn anturiaethau rhyfedd yng nghwmni *Nesta* – gan obeithio y bydd pethau'n callio yn ystod Eisteddfod eleni:

*Mi welais i bethau go rhyfedd*

*Ar droed rôl steddffod y llynedd*

*Wrth edrych i lawr*

*Gerllaw Aeron fawr*

*Yn Llannerch roedd blaenor yn gorwedd.*

Prif ofid Iolo yw'r gamp o golli pwysau.

Mae ei ymgais olaf yn limrig smala iawn:

*Ni welais ers oesoedd fy nghoes i,*

*Ni wn beth yw siâp fy mhen-glin i;*

*Wrth edrych i lawr,*

*Mae fy mola yn awr*

*Yn fy rhwystro rhag gweled fy modie!*

Ond o ran chwerthin – credaf mai Enid sydd wedi trechu yn y gystadleuaeth hon gyda'r darlun comic o'r cawr mewn trybini wrth iddo sylweddoli na ddaw 'henaint ei hunan'!

*Rwy'n dechrau heneiddio rwy'n credu*

*A phethau yn wir sydd yn ffael*

*Wrth edrych i lawr*

*Darganfod wna'r cawr*

*Fod popeth yn awr wedi rhwdu.*

Felly dyma'r drefn:

**1af Enid**

**2ail Tomi**

**3ydd Iolo**

**Cerdd**

**ADAR**

Nid gwaith hawdd oedd didoli'r saith cerdd a ddaeth i law. Ceir cyffyrddiadau da ymhob un – ond roedd angen chwilio am y gerdd a oedd yn cynnal y safon yn fwyaf gwastad.

Gan *Ail-ferch* – cawn fynd i'r ysbyty a gweld y claf yn hiraethu am ryddid yr aderyn. Mae'n cyfleu diflastod yr aros i'r dim ac wrth i'r gwynt godi mae 'fflach' yr adar du a gwyn yn cynnig eiliad o obaith. Mae'r tair llinell olaf yn cadarnhau'r anobaith gwaelodol fodd bynnag:

*Petawn i yn aderyn bychan*

*Allwn i hedfan i ffwrdd*

*Ar gefn y gwynt, ond i ble?*

Credaf y gallai *Ail-ferch* fanteisio o dynhau ychydig ar rythm y llinellau ac edrych yn ofalus ar lle i'w torri.

*Camlas*

Cadwyn o benillion swynol a geir gan *Camlas*, ac mae enwau'r adar yn rhyfeddol o dlws. Barn bersonol yw'r ffaith nad wyf yn cytuno gyda'r gosodiad yn y llinell olaf - nid wyf i'n credu bod rhaid i ni 'addef' unrhyw drefn greulon. Rwy'n gweld byd o wahaniaeth rhwng trefn yr adar bach a'r ddynol-ryw yn hynny o beth. Ond nid dyma faen tramgwydd y gerdd fach swynol hon imi, yn hytrach y cloffi rhythmig sy'n digwydd wrth i'r llinellau amrywio o fod yn acennog a diacen heb batrwm pendant. Nid yw'n gweddu i'r math hwn o gerdd, tybiaf. Ond ymgais delynegol iawn.

*Tsunami*

Cawn ddarlun dramatig o fyd yr adar yn ymateb i don y *Tsunami* yn y gerdd hon. Rwy'n hoffi'r ferf gyffroes 'ceffylu' - mae'n gweddu i'r dim. Ond yma eto, fel gyda'r tair cerdd uchod, y rhythm yw'r gwendid. Mae angen edrych yn ofalus ar lle a pham mae'r llinellau'n cael eu torri.

*Long John Silver*

Cafwyd clawr trawiadol gan *Long John Silver*. Serch hyn, wedi darllen y gerddi sawl gwaith, rwy'n sicr fod yma neges nad wyf yn ei deall yn llawn. Maddeuer i mi am fethu dod o hyd i'r trysor sydd ynddi yn rhywle - ai'r allwedd yw'r gair 'trydar' sydd ar ei ben ei hunan yn y llinell glo? A beth yw arwyddocâd y 'geiriau ceintachlyd' sy'n 'ymyrryd'? Efallai gellid bod wedi bwrw ychydig mwy o oleuni er mwyn helpu'r darllenydd ychydig.

### *Gwilym*

Dyma gerdd sy'n dechrau'n addawol iawn ac ar y cefn mae'r gwahanu rhwng y llinellau yn rhesymegol. Mae'n colli ychydig o dir wrth rannu rhwng 'gyda chodiad' a 'deffroadol yr haul', ac nid wyf i'n gwbl sicr o'r angen i osod y grisiau yn y gerdd ychwaith. Wedi dweud hyn, ceir yma gyffyrddiadau cofiadwy.

### *Pluen*

Gwenoliaid sydd wedi mynd â chalon *Pluen* ac mae wedi llwyddo i'w darlunio'n bert: 'y pegiau dillad digyffro' – dyma'r math o ymadrodd sy'n dangos dychymyg ac sy'n troi geiriau i fod yn farddoniaeth. Ceir ymgais i gadw patrwm odl – weithiau mae hwn yn gwasgu'n rhy drwm (e.e. 'canig doeth') i'm clust i, ac yn colli naws naturiol y dweud. Ond, serch hyn, mae'r bardd hwn yn dangos parch at grefft. Dalier ati. Mae darnau addawol iawn yn y gerdd hon.

### *Menna Lili*

Cafwyd soned gan *Menna Lili* sy'n dilyn y patrwm odli acennog, diacen. Er bod yr odl weithiau'n gofyn am ystumio rhywfaint ar y dweud - yn debyg i *Pluen* ar adegau - mae'r gerdd yn llifo'n dda ac mae'r neges yn drawiadol ac amserol. Mae *Menna Lili* yn gweld dychwelyd y barcud a'r iaith Gymraeg fel dau gymar a dau arwydd o obaith. Wedi rhyfeddu at y barcutiaid, cawn fynd i iard yr ysgol a chlywed y 'criw byrlymus' yn siarad yr hen iaith, cyn mwynhau'r cwpled clo:

*A daeth llawenydd, wedi'r absen hir,*

*Fod iaith a barcud eilwaith yn y tir.*

Oherwydd ei bod yn soned amserol ac addas i'r ardal hon – *Menna Lili* sy'n mynd â'r wobr gyntaf y tro hwn. Llongyfarchiadau.

### **1af Menna Lili**

### **2ail Pluen**

### **3ydd Ail-ferch a Gwilym**

## Stori fer - GADAEL

Daeth 6 darn o waith i law a chefais foddhad o'u darllen i gyd. Fodd bynnag, credaf fod angen i ni fod yn glir o'r gwahaniaeth rhwng Stori Fer ac Ysgrif neu Draethawd. Mewn Stori Fer – sef y gofyn yn y gystadleuaeth hon – mae'n rhaid cael 'digwyddiad', weithiau gelwir hwn yn 'drobwynt', ond mae angen o leiaf un peth sy'n creu gwrthdaro (boed rhwng cymeriadau neu o fewn un cymeriad) sy'n arwain at dyndra.

Cafwyd sawl ysgrif, sef sylwebaeth ar wahanol ddigwyddiadau nad oeddent, ynddyn nhw eu hunain, yn arwain at unrhyw uchafbwynt storiol, ac er bod yr ysgrifau hyn yn fywiog a diddorol, ni chredaf y gellid eu galw'n storiâu.

Mae sawl un wedi mentro i faes yr ysgrifennu tafodieithol, a hynny'n llwyddiannus iawn, ond cofier nad yw hyn ynddo'i hunan yn rhoi stori i ni.

Mae'r *Wiwer Goch* wedi cyflwyno ysgrif neu gofnod taith yn hytrach na stori, ac er i mi fwynhau yn ei chwmmi drwy'r Unol Daleithiau, roeddwn i'n gweld eisiau'r un trobwynt sylweddol. Roedd angen mwy o adeiladu at y penderfyniad i ddychwelyd i gyfiawnhau'r teitl 'stori fer'.

Mae'r *Steddfotwr* hefyd efallai'n rhoi gormod o fân ddigwyddiadau yn hytrach nag un digwyddiad canolog i ennill y gystadleuaeth hon, er bod y dweud yn ddeheuig a'r awdur yn gallu cynnal diddordeb yn dda iawn.

Mae *Olwen* yn nes ati, ac yn troi penderfyniad y prif gymeriad i adael yn ddigwyddiad sylweddol. Mae'r ysgrifennu'n ddengar, ond tybed a oes cloffi tua'r diwedd wrth glymu nôl braidd yn rhy dwt i'r beddau trist yn y fynwent?

Yn stori *Y Truan*, clywir llenor ar waith, ond rhaid i'r llenor osgoi codi i bulpud y pregethwr yn rhy aml - ac yn fy marn i, mae'r pwyntio bys ar y diwedd yn tynnu oddi ar y cynildeb a geir yn y frawddeg agoriadol wrth gyflwyno'r syniad diddorol o 'esgus' fel 'pont'. Wedi dweud hynny, gwelir hanfodion stori yma, wrth i ni ddilyn helynt y glöwr druan i'w fedd cynnar.

Mae gan *Kilda* syniad go lew o'r hyn sydd ei angen i greu stori - ond mae angen tynhau rhwng yr oedi a'r pendroni uwch y dewis er mwyn cyflymu'r tempo ychydig cyn i Ddafydd fynd - o'r diwedd - ar fwrdd y llong.

Gan *Eli* cafwyd stori fer go iawn. Drama, tyndra, adeiladwaith, digwyddiad canolog a diwedd glo gwirioneddol afaelgar. Mae'n stori arswyd, ac yn stori drist iawn. Ond mae'n un sydd angen ei dweud. Llongyfarchiadau i Eli.

**1af**    **Eli**

**2ail**    **Kild**

**3ydd Y Truan**

Mererid Hopwood